**Grŵp Llywio: Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru**

**Parc Cathays – Caerdydd 3**

**17 Gorffennaf 2019 9:00am – 11:00am**

**Yn bresennol**

Jane Hutt AC, Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip (Cadeirydd)

Elizabeth Flowers (Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru)

Keithley Wilkinson (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro)

Kelly Davies (Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru)

Y Cynghorydd Mary Sherwood (Cyngor Abertawe)

Daniel Hurford (CLlLC)

Fran Targett (CGGC)

Catherine Fookes (RhCM Cymru)

Hannah Wharf (Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

Rhian Davies (Anabledd Cymru)

Dr Emily Kakoullis (Prifysgol Caerdydd)

Aled Edwards (Cytûn)

**Swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn bresennol**

Alyson Francis – Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Cymunedau

Uzo Iwobi – Cynghorydd Polisi Arbenigol

Paul Dear – Pennaeth Cydraddoldeb (yn gadael)

Emma Bennett – Pennaeth Cydraddoldeb (yn cymryd yr awenau)

Rae Cornish – Pennaeth Cydraddoldeb Rhywiol

Shane Williams – Pennaeth Gwaith Pobl Anabl a Gweithredu Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Dr Steven Macey – Uwch-Swyddog Ymchwil

Sarah Jones – Cymorth Tîm Cydraddoldeb a VAWDASV

**Ymddiheuriadau**

Sally Thomas (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr/Rhwydwaith Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru)

Sean O'Neill (Plant yng Nghymru)

Rhian Pritchard – Rheolwr Deddfwriaeth Cydraddoldeb

**Croeso a Chyflwyniadau – Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**

Croesawyd pawb a oedd yn bresennol i gyfarfod cyntaf y Grŵp Llywio ar gyfer Hyrwyddo a Chryfhau Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Prif ddiben y cyfarfod cyntaf hwn oedd egluro nodau, amcanion a Chylch gorchwyl y Grŵp Llywio. Mae Llywodraeth Cymru a phawb sy'n bresennol yn y cyfarfod yn ymwybodol o effaith uniongyrchol y sefyllfa bresennol o ran cyni a Brexit ar hawliau dynol, yn enwedig mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig. Nododd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud popeth o fewn ei gallu i ddiogelu cydraddoldeb a hawliau dynol, am fod hyn yn rhan o'i deddfwriaeth sefydlol.

**Trosolwg o'r Nodau a'r Dull Gweithredu**

Gofynnwyd i bawb a oedd yn bresennol drafod eu disgwyliadau ar gyfer y grŵp hwn yn eu tro. Roedd y grŵp yn gwbl gadarnhaol ynghylch sefydlu'r grŵp a'i ddiben cyffredinol. Ymhlith y pwyntiau penodol a wnaed roedd y canlynol:

- Nododd Hannah Wharf, er mwyn i'r Ddeddf Hawliau Dynol gael ei hymgorffori yng Nghymru, fod angen gwneud gwaith ymchwil pellach i lenwi'r bylchau. Gwnaeth Hannah hefyd holi a fyddai'r grŵp hwn yn edrych ar atebolrwydd cytuniad.

- Cyfeiriodd Catherine Fookes at y Bil Hawliau Merched, a fyddai'n helpu i amddiffyn hawliau merched ar ôl Brexit. Awgrymodd Catherine y gallai'r grŵp llywio hwn helpu gyda'r gwaith a wneir gan RhCM Cymru ar y Bil hwn. Mae angen nodi bylchau a rhoi strwythurau cyfreithiol ar waith mewn perthynas â chyflwyno'r Bil.

- Cododd Fran Targett bwysigrwydd edrych y tu hwnt i'r ddeddfwriaeth; dylid anelu at weithredu ac ymgysylltu â phobl go iawn. Awgrymodd fod angen newid mewn ymddygiad, yn enwedig o ran y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Cytunodd Kelly Davies â Fran fod angen edrych ar gamau y tu ôl i'r ddeddfwriaeth.

- Mynegodd y Cynghorydd Mary Sherwood bryder ynghylch diffyg ymrwymiad ystyrlon i gyflawni dyletswyddau cydraddoldeb yng Nghymru. Nododd y bydd cynghorau, er enghraifft, ond yn gwneud yr hyn sy'n ofynnol yn statudol o ganlyniad i'r pwysau dwys ar adnoddau. Fodd bynnag, os cyflawnir y ddyletswydd hon yn iawn a'i gwneud yn dda, mae llawer o botensial i sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Gwnaeth hefyd dynnu sylw at weithredu GDPR, gyda chyhoeddusrwydd eang a phwyslais cryf ar risgiau diffyg cydymffurfio fel astudiaeth achos da ar gyfer y ffordd y gallem baratoi i weithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.

- Awgrymodd Daniel Hurford y byddai corff sefydlog o sefydliadau sector cyhoeddus yn cael ei groesawu.
- Tynnodd Keithley Wilkinson sylw at y ffaith bod natur groestoriadol gwahaniaethu yn bwysig wrth ystyried materion cydraddoldeb. Gwnaeth Keithley hefyd argymell y dylai'r grŵp hwn ddefnyddio iaith syml a chyfathrebu'n glir.
- Hysbysodd Dr Emily Kakoullis y grŵp fod ei hymchwil yn canolbwyntio ar hawliau dynol ar lefel ryngwladol. Roedd yn gobeithio ei defnyddio i lywio gwaith y grŵp ac mae ganddi ddiddordeb mewn cyfrannu at gwestiynau ac ymchwilio i'r ffordd y caiff confensiynau'r Cenhedloedd Unedig eu rhoi ar waith ar lawr gwlad.
- Mae Elizabeth Flowers o blaid ymgorffori Confensiynau'r Cenhedloedd Unedig ymhellach, gan adeiladu ar y profiad a gafwyd ers i'r Mesur Hawliau Plant gael ei gyflwyno yng Nghymru.
- Nododd Rhian Davies nad yw pobl yn teimlo bod eu hawliau presennol yn cael eu cynnal a bod pobl sydd ag anableddau yn wynebu gwahaniaethu o hyd, 25 mlynedd ers cyflwyno'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

**<u>Cytuno ar Gylch Gorchwyl</u>**

Trafodwyd y cylch gorchwyl drafft a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod a chytunodd y grŵp ar y diwygiadau canlynol:

- Dylai iaith y cylch gorchwyl fod yn syml ac yn hawdd ei deall.
- Mae'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn awyddus i'r grŵp weithredu'n agored – dylai fod mor dryloyw â phosibl. Caiff aelodau eu hannog i rannu datblygiadau a chanlyniadau â'u cydweithwyr yn eu sefydliadau.
- Dylai'r Cylch Gorchwyl nodi'n benodol y byddwn yn rhannu ein gwaith â fforymau cydraddoldeb eraill ac ACau.
- Mae angen i Ddiben y grŵp nodi'r amrywiaeth o ffrydiau gwaith i'w cwmpasu – gan gynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, adolygu Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, gwaith ymchwil, a sicrhau cysondeb â'r cerrig milltir cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Dylai Egwyddorion y grŵp fod yn gysylltiedig â'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol a Deddfwriaeth Partneriaeth Gymdeithasol.
- Dylai Herio a Dysgu fod ymhlith Egwyddorion y grŵp.
- Roedd Alicja Zalesinska o Tai Pawb wedi mynegi diddordeb mewn ymuno â'r grŵp. Cytunwyd ar hyn.
- Trafododd aelodau y posibilrwydd o wahodd sefydliadau ac unigolion eraill i ymuno â'r Grŵp Llywio, gan gynnwys: Cynghorwyr Cenedlaethol VAWDASV, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, TUC Cymru, Andrew White o Stonewall

Cymru, Jenny-Anne o rwydwaith trawsryweddol Unique Cymru, yr Athro Robert Moore o NWREN, Rocio Cifuentes o'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig a Sunil Patel o Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth.

- Awgrymodd Aled Edwards fod angen i'r grŵp nodi ac ymateb i faterion yn gyflym ac i gynrychioli'r bobl a'u nodweddion gwarchodedig.

**Cam gweithredu 1: Diwygio'r Cylch Gorchwyl a'i rannu ag aelodau, ACau a fforymau Cydraddoldeb eraill Llywodraeth Cymru.**

**Cam gweithredu 2: Ysgrifenyddiaeth i ailystyried aelodaeth y Grŵp Llywio gan ystyried yr awgrymiadau a gyflwynwyd gan ei aelodau presennol.**

**<u>Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Waith Cysylltiedig</u>**

**Partneriaeth Gymdeithasol**

Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip at y datganiad a wnaed gan y Prif Weinidog yn y gwaith blaenorol mewn perthynas â Phartneriaeth Gymdeithasol yng Nghymru.

**Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (Paul Dear)**

Hysbyswyd y grŵp y gwelwyd cynnydd o ran y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol ers mis Chwefror gydag ymrwymiad clir gan y Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i ddechrau ei rhoi ar waith.

Mae dwy brif elfen i'r gwaith cychwynnol: y weithdrefn gyfreithiol a'r canllawiau. Mae'r broses gyfreithiol yn gymharol syml am fod Deddf Cydraddoldeb 2010 eisoes wedi'i deddfu. Fodd bynnag, mae'r Canllawiau y bydd eu hangen yn ddarn o waith mwy sylweddol. Mae swyddogion wedi cyfarfod â chymheiriaid yn Llywodraeth yr Alban i drafod y broses o roi'r ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol ar waith yno. Rhoddodd Alyson fanylion am ei hymweliad diweddar â'r Alban lle bu'n cyfarfod â chynrychiolwyr cyfreithiol i drafod yr heriau y gwnaethant eu hwynebu a'u proses ar gyfer datblygu canllawiau. Ar hyn o bryd, mae'r Alban ar fin gweithredu ac ymgorffori'r Ddyletswydd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y Ddeddf) o gymorth i Gymru o ran rhoi'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a'r canllawiau ar waith ond bydd angen i'r canllawiau yng Nghymru ystyried y Ddeddf ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n bodoli yng Nghymru yn ofalus, yn ogystal â'r cyd-destun cyffredinol yng Nghymru.

Cododd aelodau o'r grŵp bryderon ynghylch y ffaith bod angen integreiddio'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol â systemau adrodd eraill (e.e. Cynllun Cydraddoldeb Strategol). Ni all hwn fod yn ymarfer ticio blychau arall, mae angen annog pobl i feddwl yn ddyfnach am ganlyniadau.

**Adolygiad o'r rheoliadau yng Nghymru o ran Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (y Ddyletswydd) (Paul Dear)**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) er mwyn gwella cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd. Darparodd y symposiwm diweddar, a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf, adborth cadarnhaol gan

sefydliadau sector cyhoeddus ar sut yn union y gellid gwella'r rheoliadau yng Nghymru. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo mewn perthynas â chyflwyno adroddiadau – mae angen i adroddiadau blynyddol gan gyrff cyhoeddus fod ar gael yn hawdd ac mae angen i'r data y maent yn eu darparu fod yn hygyrch ac yn gyson o ran eu fformat. Mae prosiect i gyflawni'r gwelliannau hyn eisoes yn mynd rhagddo.

Trafododd Aled Edwards y ffaith mai'r naratif sy'n bwysig, yn enwedig yn y sector Ffydd, o beth mae'n ei weld. Mae'n bwysig rhannu straeon am y ffordd y mae'r systemau hyn, megis y Ddyletswydd, yn dwyn sefydliadau i gyfrif. Mae pobl yn deall straeon. Yn dilyn y pwynt hwn, trafododd y Cynghorydd Sherwood y ffordd y mae Comisiwn y Gwir am Dlodi yn yr Alban wedi helpu i lywio Llywodraeth yr Alban. Mae Comisiwn y Gwir am Dlodi wedi creu trafodaethau rhwng y sawl sy'n gwneud penderfyniadau a phobl go iawn y mae'r penderfyniadau a wneir yn effeithio arnynt. Mae Comisiwn y Gwir am Dlodi yn dechrau yn Abertawe, sef y cyntaf yng Nghymru. Bydd Mary yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y gwaith hwn.

**Cam gweithredu 3: Y Cynghorydd Mary Sherwood i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am waith Comisiwn newydd y Gwir am Dlodi yn Abertawe.**

**Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol (Rae Cornish)**

Hysbysodd Rae Cornish y grŵp fod yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol ar fin dod i ben. Mae Cam 2 o'r adolygiad yn darparu fel adroddiad a map ffordd ar gyfer Cydraddoldeb Rhywiol. Nododd Rae fod cysondeb da rhwng y gwaith ar y Ddyletswydd a'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr Adolygiad dros yr haf, a disgwylir i'r Cabinet wneud datganiad ar yr Adolygiad yn yr hydref. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl llawer o argymhellion o'r Adolygiad – argymhellion i'w gweithredu ar unwaith ac argymhellion hirdymor. Nododd Rae hefyd fod yr Adolygiad wedi mabwysiadu natur groestoriadol gwahaniaethu – cafodd hyn ei groesawu gan aelodau'r grŵp. Mae Rae yn hapus i rannu'r adroddiad pan gaiff ei gyhoeddi.

**Cam gweithredu 4: Ysgrifenyddiaeth i rannu'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol ag aelodau'r grŵp pan gaiff ei gyhoeddi.**

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chydraddoldeb (Alyson Francis)**

Trafododd Alyson Francis y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cyfranogiad ystyrlon – yn benodol sut i gysylltu ag unigolion a chynnwys lleisiau newydd yn y sgwrs. Cyfeirir at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol, a fydd hefyd yn bwydo i mewn i waith ymchwil pellach. Disgwylir i'r cerrig milltir cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gael eu cyhoeddi yn y man; bydd hyn yn berthnasol i'r grŵp a dylid eu cynnwys yn y Cylch Gorchwyl.

Nododd Alyson hefyd y disgwylir i waith ymchwil Dr Alison Parken ar Brif Ffrydio Cydraddoldeb (sy'n rhan o'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol) hefyd gael ei gyhoeddi cyn bo hir. Anfonir dolenni at y grŵp pan gaiff y gwaith ymchwil hwn ei gyhoeddi.

**Cam gweithredu 5: Ysgrifenyddiaeth i anfon dolenni i waith ymchwil Dr Alison Parken pan gaiff ei gyhoeddi.**

**Ymchwil yn y Dyfodol (Dr Steven Macey)**

Esboniodd Dr Steven Macey mai nod eang ei waith ymchwil yw mynd i'r afael â materion a godwyd ym mis Chwefror (yn ystod gweithdy ar gyfer y grŵp llywio hwn). Mae angen gwell dealltwriaeth ar gyfer y fframwaith deddfwriaeth. Mae Steven wedi drafftio manyleb ymchwil, y gall sefydliadau wneud cais i ymgymryd â hi, a fydd yn ystyried sut y gellir cryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol o fewn deddfwriaeth bresennol neu ddeddfwriaeth newydd o bosibl (Deddf Hawliau Dynol Cymru), a gwerth gwneud hynny. Byddai'r prosiect ymchwil hwn yn creu cwmpas i ailystyried rheoliadau'r Ddyletswydd ar ôl ei gwblhau. Cadarnhaodd Steven y bydd yr unigolyn a fydd yn ymgymryd â'r gwaith ymchwil yn cyhoeddi adroddiadau dros dro ar ei ganfyddiadau. O ganlyniad i achosion posibl o wrthdaro buddiannau, mae cyfyngiadau o ran y graddau y gellir rhannu'r fanyleb ymchwil ag aelodau'r grŵp llywio. Fodd bynnag, cytunodd Steven a Paul i gyfarfod ag aelodau, na fyddent yn gynigwyr posibl, ar ôl y prif gyfarfod i drafod hyn yn fanylach.

**Cam gweithredu 6: Cyfarfod dilynol i drafod y fanyleb ar unwaith – cwblhawyd**

<u>Unrhyw Fater Arall/Camau Nesaf/Cyfarfodydd yn y Dyfodol</u>

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddechrau'r hydref.